

**CYFARFOD Y PWYLLGOR CYLLID A DIBENION CYFFREDINOL** a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 4ydd Hydref 2017 yn y Swyddfeydd Dinesig, Canolfan Gymunedol Ffordd Wellington, y Rhyl, yn dechrau am 6.00pm.

**YN BRESENNOL**

Y Cyngorydd A. J. Rutherford (Cadeirydd)

Y Cyngorwyr B. Blakeley, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, Ms J. Hughes, A. R. James, A. S. Johnson, B. Jones, Mrs P. M. Jones, Mrs D. L. King, Ms J. McAlpine, B. Mellor, P. Prendergast, T. Thomas a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref  
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

**62. YMDDIHEURIADAU**

Cyflwynwyd ymddiheuriadau gan y Cyngorwyr J. Ball, S. Harris, Miss E. L. Jones, K. R. Jones, Mrs W. M. Mullen-James a Ms V. Roberts.

**63. AWURDODI TALIADAU/YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY**

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2017 ac yn unol â'r rheoliadau ariannol a fabwysiadwyd gan y Cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref atodlen B (rhestr o daliadau afreolaidd i'w gwneud dros y misoedd i ddod) (a ddsbarthwyd gyda'r rhaglen).

*Taliadau Atodlen B i'w cymeradwyo (13eg Gorffennaf – 31ain Awst 2017)*

Rhif Taleb	Enw'r Cyflenwr	Disgrifiad o'r Gwasanaeth	Swm £
352	Bernadette Williams (Miles of Smiles)	Peintio Wynebau digwyddiad 'Rhyl Wylt' 16/09/17	150.00
353	Swyddfa Archwilio Cymru	Ffi archwilio 2016/17	217.35
354	Gunsmoke Communications	Costau cyfryngau cymdeithasol digwyddiad 'Rhyl Wylt'	19.24
355	Y Cyngorydd J. Chamberlain-Jones	Costau teithio – mynychu cyfarfod N&MWALC Gorffennaf 2017	21.60
<b>Cyfanswm Atodlen B: Taliadau i'w Cymeradwyo</b>			<b>408.19</b>

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r atodlenni i'w talu a'u llofnodi gan y Cadeirydd a'r Maer.

**PENDERFYNWYD YMHELLACH** atal y Rheolau Sefydlog i alluogi i Glerc y Dref ymateb fel mater o frys.

**64. GOHEBIAETH: CYNGOR SIR DDINBYCH – SYMIAU NEILLTUEDIG**

Adroddodd Clerc y Dref iddo dderbyn yr ohebiaeth uchod (a ddsbarthwyd gyda'r rhaglen) yn hysbysu o arian symiau neilltuedig sydd ar gael, gyda dyddiad cau ar gyfer ceisiadau o hanner dydd ar ddydd Gwener 17eg Tachwedd 2017.

Er budd aelodau newydd, esboniodd Clerc y Dref bod symiau neilltuedig yn arian a oedd yn daladwy gan ddatblygwyr tai pan na fedrent ddarparu'r manau agored gofynnol yn eu cynlluniau. Derbyniwyd yr arian hwn gan Gyngor Sir Ddinbych, a oedd wedyn yn eu dyrannu i gynlluniau / brosiectau addas yn y dref.

Ar yr achlysur hwn, roedd £9,897 ar gael.

Awgrymodd Clerc y Dref bod yr aelodau yn hysbysebu hyn yn eu wardiau.

Holodd aelod os oedd y Cyngor Tref yn medru cyfeirio symiau neilltuedig, gyda golwg ar ystyried trac beicio/ceir pedlo plant ar y man gwyrdd ger yr amddiffynfeydd morol newydd ar Rodfa'r Gorllewin? Os felly, gallai'r Cyngor Tref ddarparu arian cyfatebol?

Holodd aelod arall os oedd cymdeithas trigolion yn medru gwneud cais, gan ystyried gwelliannau i Sholing Drive?

**PENDERFYNWYD** bod Clerc y Dref yn cyflwyno'r cwestiynau a godwyd i Gyngor Sir Ddinbych.

## 65. **DYDDIAU PARCIO AM DDIM**

Gofynnodd Clerc y Dref i'r aelodau ystyried sut hoffent ddefnyddio'r pum diwrnod parcio am ddim a gynigiwyd gan Gyngor Sir Ddinbych, sydd angen eu defnyddio cyn 31ain Rhagfyr 2017.

Ar gyfer aelodau newydd, esboniodd Clerc y Dref bod hwn yn gynnig blynyddol a wnaed gan y Cyngor Sir i holl Gynghorau Tref a Chymuned yn Sir Ddinbych. Roedd Cyngor Tref y Rhyl fel rheol yn defnyddio'r dyddiau ar y pum Sadwrn yn arwain at y Nadolig i annog siopwyr i'r dref.

Mewn perthynas â pharcio, holodd aelod os gallai'r Cyngor Tref ddarparu maes parcio am ddim yng nghanol y dref, fel y trefniant gyda maes parcio yn Mhrestatyn y mae Cyngor Tref Prestatyn yn ei ariannu am £4,000 y flwyddyn?

Dywedodd yr aelodau bod y Cyngor Tref wedu cysylltu â Chyngor Sir Ddinbych ychydig o flynyddoedd yn ôl ac y byddai trefniant o'r fath wedi costio £11,000 y flwyddyn i'r Cyngor Tref.

### **PENDERFYNWYD:**

- (i) *Defnyddio'r dyddiau parcio ar y pum dydd Sadwrn yn y Nadolig;*
- (ii) *Bod y cynghorwyr canlynol yn paratoi'r peiriannau tocynnau yn y chwe maes parcio arferol:*

*Morley Road – Y Cynghorydd Chard  
West Kimmel Street – Y Cynghorydd James  
Sky Tower (os yw'n gweithio) – Y Cynghorydd Prendergast  
Llyfrgell – Y Cynghorydd James  
Tanddaear – Y Cynghorydd McAlpine  
Gorsaf Drenau – Y Cynghorydd Johnson*

- (iii) *Clerc y Dref i gysylltu â Chyngor Sir Ddinbych uinwaith eto am bris i'r Cyngor Tref ariannu maes parcio yng nghanol y dref ac i adrodd i'r Pwyllgor Cynllunio Gweithredol a Strategol i'w ystyried.*

#### **66. CYNGOR SIR DDINBYCH – YMGYNGHORIAD - DIWEDDARIAD**

Ymhellach i gofnod rhif 49 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6ed Medi 2017, adroddodd Clerc y Dref iddo dderbyn ymateb interim y Cyngor Sir (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) mewn perthynas â sylwadau'r Cyngor Tref ar weithredu/amrywio gorchmynion traffig ym meysydd parcio Theatr y Pafiliwn a Rhodfa'r Dwyrain.

**PENERFYNWYD** *derbyn yr ymateb.*

#### **67. LANDLORDIAID COFRESTREDIG**

Ymhellach i gofnod rhif 34 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5ed Gorffennaf 2017, cyfeiriodd Clerc y Dref at y ffaith iddo gael ei gyfarwyddo i gael rhestr o eiddo wedi eu cofrestru gan landlordiaid y Rhyl ar sail ward, ac adroddodd bod y cynllun cofrestru yn cael ei weinyddu gan Rhentu Doeth yng Nghaerdydd, sydd wedi dweud na fedrent ddarparu rhestr, ond y gellir chwilio am eiddo unigol arlein.

**PENDERFYNWYD** *derbyn yr adroddiad.*

#### **68. CYFARFOD GYDA HEDDLU'R RHYL / GWAHODDIAD GAN Y PRIF GWNSTABL**

Ymhellach i gofnod rhif 45 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 20fed Medi 2017, dywedodd Clerc y Dref bod cyfarfod ar gyfer cynghorwyr a'r heddlu wedi ei drefnu yng Ngorsaf Heddlu'r Rhyl ar ddydd Mercher 25ain Hydref, pan fyddai'r Ditectif Arolygydd Russell a Thÿ Golau / Tîm Cymdogaeth Ddiogelach yn rhoi cyflwyniad.

At hyn, hoffai'r heddlu glywed barn cynghorwyr ar sut orau i fwydo gwybodaeth i'r heddlu, ac ar ba ffurf y dylid cysylltu i wella sianelu cyfathrebu rhwng swyddogion, cynghorwyr a thrigolion.

Mae'r Heddlu hefyd wedi gofyn os oes gan gynghorwyr unrhyw faterion ychwanegol yr hoffent eu codi yn y cyfarfod yn yr orsaf heddlu.

Mae'r Prif Gwnstabl wedi rhoi gwahoddiad i gynghorwyr ymweld â'r ystafell reoli yn Llanelwy.

**PENDERFYNWYD** *derbyn yr adroddiad a bod Clerc y Dref yn cysylltu gyda'r Heddlu mewn perthynas â'r ymweliad arfaethedig ag ystafell reoli Llanelwy.*

#### **69. ITEMAU GWYBODAETH GAN YR AELODAU**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd materion brys i'w codi.

#### **70. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD** gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried yr eitemau busnes canlynol yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.

**71. CYNNIG I ADLEOLI'R CYNGOR TREF**

Cyfeiriodd Clerc y Dref at adroddiad cyfrinachol yr Is-bwyllgor Asesu Risg (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn rhoi diweddariad i'r cynghorwyr ar gynlluniau adleoli'r cyngor.

**PENDERFYNWYD** bod Clerc y Dref:

- (i) *Yn gofyn am gadarnhad, yn y lle cyntaf, gan Gyngor Sir Ddinbych, o ran pwy sydd berchen ar adeilad Canolfan Gymunedol Wellington a pha amodau gwerthu (os oes rhai?) y mae angen i'r perchnogion lynu atynt, cyn i'r Cyngor Tref ofyn am ei gyngor cyfreithiol ei hun, os bydd angen hynny;*
- (ii) *Yn cael ei awdurdodi i wario'r ffi ofynnol i gael cyngor cyfreithiol os na fedr y Cyngor Sir fodloni'r Cyngor Tref;*
- (iii) *Yn cael ei awdurdodi i alw cyfarfod arbennig o'r cyngor i adrodd yn ôl os oes angen.*

**PENDERFYNWYD YMHELLACH** atal y Rheolau Sefydlog i alluogi i Glerc y Dref ymateb fel mater o frys.

**72. EITEM SEFYDLOG – GORCHMYNION CAU HEDDLU GOGLEDD CYMRU**

Ymhellach i gofnod rhif 79 cyfarfod a gynhaliwyd ar 3ydd Chwefror 2016, dywedodd Clerc y Dref nad oedd unrhyw geisiadau wedi eu derbyn gan Heddlu Gogledd Cymru.

**73. TERFYNU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd unrhyw faterion eraill, datganodd y Cadeirydd bod y cyfarfod ar ben.

Cadeirydd:.....

Dyddiad:.....